# GWELOD Y GARTH A FFYNNON TAF

Gohebydd Lleol: E. June Huws.

YSGOL GWAELOD Y GARTH

Croeso i ddau athro newydd i'r ysgol sef Mr Geraint Richards a Mrs Bethan Geraint. Dymunwn yn dda iawn iddyn nhw ac hefyd i Mrs Marian Evans ar ei dychweliad i swydd y ddirprwy brifathrawes.

Bu llawer o blant yr ysgol yn brysur yn ystod gwyliau'r haf yn ffilmio ar gyfer dwy raglen, un sydd i'w dangos ar S4C ar noswyl y Nadolig a'r llall wrth gwrs yw saga feunyddiol 'Pobol y Cwm'.

GRŴP HEDDWCH

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Iau 15ed Fedi lle trafodwyd materion yn ymwneud â heddwch. Estynnir croeso cynnes i unrhyw un a hoffai ymaelodi â'r grŵp. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar y drydedd nos Iau o bob mis.

PWYLLGOR APÊL YR URDD

Cafwyd cyfarfod llwyddiannus yn Festri Bethlehem lle penderfynwyd cynnal amryw o weithgareddau i godi arian at Apêl yr Urdd. Gobeithir trefnu noson Galan Gaeaf, a Ffair Sborion yn ystod y misoedd nesaf. Mae croeso i unrhyw un a fyddai â diddordeb mewn rhoi help llaw i ddod i'r cyfarfod nesaf ar 18fed Hydref yn y Festri am 6.30 pm.

BETHLEHEM

Bydd plant y capel yn perfformio yn y pasiant, gydag aelodau eraill Ysgolion Sul yr ardal yn Neuadd Parc a Dâr yn Nhreorci ar ddydd Sadwrn 24ain o Fedi.

LLWYDDIANT YN Y GENEDLAETHOL

Llongyfarchiadau i barti Cerdd Dant dan 15 oed y capel a'r parti Alaw Werin dan 18 oed a gafodd yr ail wobr yn yr Eisteddfod. Cafodd Côr Capel Bethlehem y drydedd wobr yn eu hadran hwythau.

DAMWAIN

Cafwyd dechreuad anffodus i wyliau Mrs H. Edwards a'i dwy ferch Miss Mary edwards, Mrs jean Blythe a'i wyres Catherine. Wrth adael gwaelod y Garth, ganllath o'r tŷ buont mewn gwrthdrawiad â char arall ond er bod y car wedi ei niweidio'n ddrwg nid oedd y teithwyr ond yn diodde o sioc a mân anafiadau. Aethant yn eu blaenau i deithio dipyn ymhellach - i fwynhau eu mordaith ym môr y canoldir.

CRONFA CERDDORIAETH YR YSGOL

Cynhelir disgo yng Nghlwb Rygbi Ffynnon Taf ar nos Sadwrn 15ed Hydref am 8.30 pm. Mae tocynnau yn £2, yn cynnwys bwyd - bargen arbennig o dda. Dewch i gefnogi'r achos.

MARWOLAETH

Gyda thristwch clywsom am farwolaeth Mrs Nest Jeremy, Tŷ Newydd, Gwaelod y Garth y mis diwethaf. Yr oedd Mrs Jeremy wedi ei magu yn y pentref ac yn un o deulu enwog y Phillips. Yn ystod ei bywyd cymerodd ran blaenllaw ym mywyd yr ardal, roedd yn Gynghorydd ar hen Gyngor Gwledig Caerdydd ac yna ar Gyngor Cymuned Pentyrch, enwyd stryd Heol Nest yn yr Eglwys Newydd ar ei hol. Bu'n aelod o fwrdd llywodraethwyr yr Ysgol gynradd, ar bwyllgor Neuadd y Pentref ac hefyd fel aelod selog o Gapel Bethlehem.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'i merch Mrs Ann Grey, Huw a Rhiannon ei wyrion a Miss Morfydd Evans a oedd yn ffrind mynwesol iddi.

# SER RHYNGWLADOL

Cymru, Ffrainc, yr Eidal, Gwlad Thai a'r Ffindir. Beth yw'r cysylltiad? Mae plant ysgol Gwaelod-y-Garth yn gwybod. Ffilm ydyw am blant bach y gwledydd yn dathlu'r Nadolig, yn cael ei gwneud gan gwmni o'r Ffindir. Cynrychiolwyr Cymru yn y ffilm yw rhai o blant Gwaelod-y-Garth.

Dau ddiwrnod o ffilmio diwyd yn ystod gwyliau'r haf yng Nghastell Coch, Sain Ffagan a Stiwdio Enfys (garej ar un o'r ystadau diwydiannol yn ymyl Dociau Caerdydd.

Sut y cafodd y plant ran yn y ffilm? Diolch i Angela a Dyfan Roberts sydd wedi ffurfio cwmni ffilmio annibynnol "Felinteli" a ddaeth i gysylltiad â ni.

Cewch weld y ffilm ar Noswyl Nadolig a hynny ar deledu byd eang. Os bydd na feirniadaeth ar y ffilm cadwch ef i chi eich hunain. Mae;r sêr myn meddwl tipyn ohonynt eu hunain erbyn hyn. Os digwydd fod un ohonynt i esgyn i'r entrychion mewn disgleirdeb ac iddi enw go fawr fel Burton neu Taylor gall fod yn deimlad go anesmwyth i chi ar ôl gwneud y fath gam a hwy.

# PLANT Y CWM

Pobol y Cwm, 'Ysgol Cwmderi', a Gwaelod y Garth. Eto beth yw'r cysylltiad. Wel mae fel hyn. Nid yw rhieni Cwmderi yn fodlon danfon eu plant i'r ysgol leol bellach oherwydd y cario mlaen a fu rhwng Beth Leyshon y brifathrawes â'r athro, Wyndham. A nawr druan mae e wedi ei ladd mewn damwain car, a'r brifathrawes wedi cael babi. Mae pethau yn wael yn ysgol Cwmderi os gofynnwch i mi.

Does dim rhyfedd fod plant Cwmderi i gyd yn cael eu trosglwyddo i Ysgol Gwaelod y Garth. Felly mae'n dilyn pan fod angen ffilmio'r ysgol a'r plant lleol mae'n rhaid iddynt ddod i Waelod y Garth i gael hyd i'r plant. Bellach mae ffilmio yn rhan bwysig a go iawn o'u cwriciwlwm yn yr ysgol a dyna fu hanes y plant os buoch yn edrych ar Bobl y Cwm.

Does dim rhyfedd fod yr Awdurdod Addysg yn gwario bron £100,000 ar yr ysgol. Rhaid i mi ofyn pa liwiau sydd yn dangos orau ar y sgrin. Rhaid osgoi du a gwyn mae'n amlwg oherwydd does dim byd yn ddu a gwyn ym myd addysg.

Gyda llaw nid hap a damwain yw fod athrawesau Ysgol Gwaelod y Garth gyda'r teca a'r glana yn y byd. Mae'u llywodraethwyr yn mynnu bellach fod "screen test" yn rhan o'u cyfweliad. Piti nad yw'r prifathro cystal ond dyna fe dyn camera fuodd e erioed. cadw'r pethau yn y ffocws iawn dyna fe!




GWYL DDRAMA TAFOD ELAI

1988

**21 - 25 Tachwedd yn**

**Neuadd Dowlais, Llanilltud Faerdref**

yn eisiau
CAPEL/CÔR/CYMDEITHAS/
CLWB/YSGOL/CYLCH MEITHRIN
i fod yn gyfrifol am
luniaeth ysgafn am

CEWCH CHI GADW'R ELW!
Ffoniwch 0222 890979